*Argraffwyd yr Offeryn Statudol hwn yn lle'r OS sy'n dwyn yr un rhif ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1512 (Cy.155)

# COMISIYNYDD POBL HŶN CYMRU, CYMRU

## Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Diwygio) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *10 Mehefin 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *12 Mehefin 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 5(4)(b) a 6(5), 8(1)(e), 10(1) a (5), 15(1) a (3) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2006 a pharagraff 8 o Atodlen 1 iddi(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Yn unol â pharagraff 35(3) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**3**), cafodd drafft o'r Rheoliadau hyn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 12 Mehefin 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Cwnsler Cyffredinol" ("*the Counsel General*) yw'r person a benodir o dan adran 49 o Ddeddf 2006;

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y cyfansoddwyd ef gan adran 1 o Ddeddf 2006;

ystyr "Cynulliad 1998" ("*the 1998 Assembly*) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y cyfansoddwyd ef gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**);

(**1**) 2006 p.30, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) 2007 (O.S. 2007/1388).
(**2**) Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru drwy weithrediad paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**3**) 2006 p.32, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) (O.S. 2007/1388).
(**4**) 1998 p.38.

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006(**5**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006(**6**);

ystyr "Gweinidogion Cymru" ("*the Welsh Ministers*") yw'r personau a benodir o dan adran 48 o Ddeddf 2006;

ystyr "Llywodraeth Cynulliad Cymru" ("*the Welsh Assembly Government*") yw Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y'i diffinnir gan adran 45(1) o Ddeddf 2006;

ystyr "y Prif Weinidog" ("*the First Minister*") yw'r person a benodir o dan adran 48 o Ddeddf 2006.

**Diwygio Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007**

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007(**7**) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 4 (rhoi gwybodaeth gan bersonau rhagnodedig)—

(a) yn is-baragraff (a) o baragraff (2)—

(i) ar ôl "ac aelodau a chyflogeion" mewnosoder "Llywodraeth Cynulliad Cymru";

(ii) yn lle "y Cynulliad" mewnosoder "Cynulliad 1998"; a

(iii) ar ôl "Cynulliad 1998" mewnosoder "a Llywodraeth Cynulliad Cymru";

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn lle "yw'r Cynulliad" mewnosoder "yw Cynulliad 1998"; a

(ii) ar ôl "Cynulliad 1998," mewnosoder "Llywodraeth Cynulliad Cymru,".

(3) Yn rheoliad 5 (rhoi cymorth mewn achosion)—

(a) yn is-baragraff (c) o baragraff (2)—

(i) yn lle "y Cynulliad" mewnosoder "Gynulliad 1998"; a

(ii) ar ôl "Gynulliad 1998" mewnosoder ", Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol".

(4) Yn rheoliad 8 (achosion sy'n destun archwilio)—

(a) ym mharagraff (c)—

(i) yn lle "gan y Cynulliad" mewnosoder "gan Gynulliad 1998"; a

(ii) ar ôl "Gynulliad 1998" mewnosoder ", Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol".

(5) Yn rheoliad 11 (rhoi gwybodaeth mewn cysylltiad ag archwiliad)—

(a) yn is-baragraff (a) o baragraff (3)—

(i) ar ôl "ac aelodau a chyflogeion" mewnosoder "Llywodraeth Cynulliad Cymru";

(ii) yn lle "y Cynulliad" mewnosoder "Cynulliad 1998"; a

(iii) ar ôl "Cynulliad 1998" mewnosoder "a Llywodraeth Cynulliad Cymru";

(b) ym mharagraff (4)—

(i) yn lle "yw'r Cynulliad" rhodder "yw Cynulliad 1998";

(ii) ar ôl "Cynulliad 1998" mewnosoder "Llywodraeth Cynulliad Cymru,"; a

(**5**) 2006 p.32.
(**6**) 2006 p.30.
(**7**) O.S. 2007/398 (Cy.44).

(iii) yn lle "gan y Cynulliad" rhodder "gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol".

(6) Yn rheoliad 14 (adroddiadau) yn lle is-baragraff (b) o baragraff (5) rhodder "i'r Cynulliad a Dau Dŷ'r Senedd".

(7) Yn rheoliad 15 (camau pellach yn sgil adroddiad) ym mharagraff (1) yn lle "y Cynulliad" rhodder "Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol".

(8) Yn rheoliad 16 (adroddiadau i'r Cynulliad)—

(a) ym mharagraff (1) yn lle "i'r Cynulliad" rhodder "i'r Prif Weinidog";

(b) ym mharagraff (2) yn lle "i'r Cynulliad" rhodder "i'r Prif Weinidog";

(c) yn lle paragraff (4) rhodder—

"Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r Comisiynydd, erbyn 1 Hydref bob blwyddyn fan bellaf, anfon copi o'r adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1), (2) a (3) at y Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd".

*Gwenda Thomas*
O dan arweiniad y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

10 Mehefin 2008

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007 ("Rheoliadau 2007") a wnaed o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Mae Rheoliadau 2007 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â swyddogaethau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Maent yn cynnwys gofynion ynghylch y Cynulliad ar gyfer rhoi gwybodaeth gan bersonau rhagnodedig, darparu cymorth i bobl hŷn mewn achosion rhagnodedig, archwilio disgrifiadau penodedig o achosion a pharatoi a dosbarthu adroddiadau penodol.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") yn gwneud darpariaethau newydd i Lywodraeth Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn addasu Rheoliadau 2007 fel yr ystyrir sy'n briodol o ganlyniad i Ddeddf 2006. Addesir pob cyfeiriad at y Cynulliad yn Rheoliadau 2007 er mwyn pennu a ydyw'n gymwys i'r Cynulliad fel y cyfansoddwyd ef gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; Llywodraeth Cynulliad Cymru; Comisiwn y Cynulliad; y Cynulliad (fel y cyfansoddwyd ef gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006); Gweinidogion Cymru; y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol.